



Newid i wasanaethau gofal brys ac argyfwng ar gyfer plant ac ieuenctid

Beth wyt ti'n ei feddwl?




Hawdd ei Ddeall



Mae hwn yn fersiwn Hawdd ei Ddeall o wybodaeth anodd. Efallai na fydd yn cynnwys y wybodaeth i gyd ond bydd yn dweud y pethau pwysig.



Mae'r ddogfen Hawdd ei Ddeall hon yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Efallai bydd dal eisiau help arnat i'w darllen.



Mae rhai geiriau mewn teip **trwm** - mae hyn yn golygu bod yr ysgrifen yn fwy trwchus ac yn dywyllach.



Mae'r rhain yn eiriau sy'n anodd i rai pobl. Pan weli di air mewn teip trwm, byddwn yn ei esbonio yn y frawddeg nesaf.




Mae geiriau [glas wedi eu tanlinellu](#) yn dangos [dolen](#) i wefan neu gyfeiriad ebost. Galli di glicio ar y dolenni hyn ar gyfrifiadur.

Beth sydd yn y llyfryn hwn

Am y llyfryn hwn.....	4
Am y cwestiynau	5
Y cwestiynau.....	7
Cwestiynau amdanat ti.....	21
Beth sy'n digwydd nesaf?.....	37
Mwy o wybodaeth.....	38

Am y llyfryn hwn



Mae Hywel Dda yn trefnu a darparu gwasanaethau iechyd yn:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro



Mae 4 prif ysbyty:

- Bronglais yn Aberystwyth
- Glangwili yng Nghaerfyrddin
- Tywysog Philip yn Llanelli
- Llwynhelyg yn Hwlfordd



Isod mae rhai cwestiynau am wneud newidiadau i **wasanaethau gofal iechyd brys ac argyfwng** ar gyfer plant ac ieuenctid sy'n defnyddio:

- Ysbyty Llwynhelyg
- Ysbyty Glangwili

Am y cwestiynau

Bydd y cwestiynau yn y ddogfen hon yn gofyn hyn i ti:



- Beth wyt ti'n ei feddwl am y 3 opsiwn posib.



- Beth wyt ti'n feddwl sy'n dda neu wael am y 3 opsiwn posib.



- Unrhyw beth arall wyt ti'n meddwl sydd angen i ni ystyried.




Does dim rhaid i ti ateb cwestiwn os nad wyt ti am wneud.



Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth wyt ti'n ei roi yn ddiogel.

Rydym yn dilyn y gyfraith wrth gasglu a defnyddio dy wybodaeth.

Y cwestiynau



Cwestiwn 1: Sut wyt ti'n rhan o wasanaethau gofal iechyd ar gyfer plant ac ieuenctid? *Ticia pob ateb sy'n berthnasol.*

- ☐ Rwy'n defnyddio'r gwasanaethau plant ac ieuenctid nawr, neu wedi eu defnyddio yn y gorffennol.
- ☐ Rwy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal iechyd plant ac ieuenctid.
- ☐ Rwy'n byw yn ardal Hywel Dda.
- ☐ Rwy'n ymweld ag ardal Hywel Dda ar fy ngwyliau.
- ☐ Rwy'n perthyn neu'n gofalu am rywun sy'n defnyddio'r gwasanaethau plant ac ieuenctid.

☐ Rwy'n gweithio i'r GIG mewn gwasanaeth gofal iechyd gwahanol.

☐ Rwy'n ateb y cwestiynau hyn ar ran fy sefydliad.

☐ Arall – nodwch beth isod:

Opsiwn 1



Bydd mwy o **wasanaethau cleifion allanol** i blant ac ieuenctid yn Ysbyty Llwynhelyg.

Mae **gwasanaethau cleifion allanol** ar gyfer cleifion sydd angen gofal mewn ysbyty ond nid oes angen iddynt aros dros nos.

Byddai'n golygu hyn:



- Gall y rhan fwyaf o blant ac ieuenctid gael gwasanaethau cleifion allanol yn Ysbyty Llwynhelyg.



- Gall plant ac ieuenctid gael eu gweld gan feddyg plant yn Ysbyty Llwynhelyg o fewn 72 awr i fynd i'w meddygfa neu adran argyfwng.



- Gall plant ac ieuenctid fynd i weld meddyg plant yn Ysbyty Llwynhelyg o ddydd Llun i ddydd Gwener.



Cwestiwn 2: Pa mor dda neu wael wyt ti'n meddwl yw opsiwn 1. *Ticia 1 ateb yn unig.*

Da iawn

Da

Dim da
na gwael

Gwael

Gwael
iawn

Ddim yn
gwybod



Cwestiwn 3: Os wyt ti'n meddwl bod opsiwn 1 dda, dwed pam.



Cwestiwn 4: Os wyt ti'n meddwl bod opsiwn 1 yn wael, dwed pam.

Opsiwn 2




Bydd Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg. Bydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 10.00am i 6.00pm.



Cofia, PACU yw Uned Gofal Ambiwladol Pediatrig. Dyma ble gall plant weld meddyg a chael triniaeth, ac yna mynd adref ar yr un diwrnod. Meddyg sy'n penderfynu pwy sy'n cael dod i'r Uned PACU.



Bydd gwasanaethau cleifion allanol, sy'n cael eu disgrifio yn opsiwn 1, ond byddant wedi'u cyfyngu oherwydd y lle sydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn yn yr ysbyty.



Os oes angen i blentyn neu berson ifanc aros dros nos bydd yn cael ei anfon i Ysbyty Glangwili.



Cwestiwn 5: Pa mor dda neu wael wyt ti'n meddwl yw opsiwn 2. *Ticia 1 ateb yn unig.*

Da iawn

Da

Dim da
na gwael

Gwael

Gwael
iawn

Ddim yn
gwybod



Cwestiwn 6: Os wyt ti'n meddwl bod opsiwn 2 yn dda, dwed pam.



Cwestiwn 7: Os wyt ti'n meddwl bod opsiwn 2 yn wael, dwed pam.


Opsiwn 3



Bydd Uned PACU yn Ysbyty Llwynhelyg. Bydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 10.00am i 6.00pm.



Bydd gwasanaethau cleifion allanol, sy'n cael eu disgrifio yn opsiwn 1, ond byddant wedi'u cyfyngu oherwydd y lle sydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn yn yr ysbyty.



Os oes angen i blentyn neu berson ifanc aros dros nos bydd yn cael ei anfon i Ysbyty Glangwili.

Bydd opsiwn 3 hefyd yn cynnwys:



- Profiad gwell i blant a phobl ifanc sy'n mynd i'r adran achosion brys yn Ysbyty Glangwili, fel ardal aros.



- Hyfforddiant ychwanegol i staff yr adran argyfwng yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelyg.



Cwestiwn 8: Pa mor dda neu wael wyt ti'n meddwl yw opsiwn 3. *Ticia 1 ateb yn unig.*

Da iawn

Da

Dim da
na gwael

Gwael

Gwael
iawn

Ddim yn
gwybod



Cwestiwn 9: Os wyt ti'n meddwl bod opsiwn 3 yn dda, dwed pam.



Cwestiwn 10: Os wyt ti'n meddwl bod opsiwn 3 yn wael, dwed pam.



Cwestiwn 11: Wyt ti am ddweud unrhyw beth arall wrthym am unrhyw un o'r 3 opsiwn posib.



Cwestiwn 12: Dwed wrthym am unrhyw grwpiau o bobl wyt ti'n meddwl y bydde nhw'n cael eu heffeithio gan unrhyw un o'r 3 opsiwn posib. Gall rhain fod yn bethau da neu wael.

Nawr, symud ymlaen i ran nesaf yr holiadur.

Cwestiynau amdanat ti



Rydym am ofyn rhai cwestiynau amdanat ti.



Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn clywed gan bobl o wahanol gefndiroedd.



Does dim rhaid i ti roi gwybodaeth bersonol os nad wyt am wneud.



Ni fydd neb yn gwybod mai ti sydd wedi rhoi'r atebion.




Rydym yn dilyn y gyfraith wrth gasglu a defnyddio dy wybodaeth.



I gael gwybod mwy am sut rydym yn gofalu am dy wybodaeth, cer i:

www.ors.org.uk/privacy

Rydym wedi gofyn i Opinion Research Services (ORS) i reoli dy wybodaeth a dy atebion.



Cwestiwn 13: Beth yw cod post dy gartref?

Os wyt yn ateb y cwestiynau hyn ar ran sefydliad, cer ymlaen i gwestiwn 15.



Cwestiwn 14: Os wyt yn ateb y cwestiynau hyn dros dy hun, ac am i ni gadw mewn cysylltiad â ti ar ddewis yr opsiwn gorau, dwed hyn wrthym:



Dy enw:



Sut wyt am i ni gysylltu â ti. Gall hyn fod yn gyfeiriad ebost neu yn rhif ffôn:



Cofia, does dim rhaid i ti roi'r wybodaeth hon os nad wyt ti am wneud.

Cer ymlaen i gwestiwn 16.



Cwestiwn 15: Os wyt yn ateb ar ran sefydliad, dwed hyn wrthym:




Enw'r sefydliad:



Ar ran pwy mae'r sefydliad yn siarad:



Sut wnaeth y sefydliad gasglu barn y bobl y mae'n eu cynrychioli:



Cwestiwn 16: Ym mha ran o Gymru wyt ti'n byw? *Ticia 1 ateb yn unig.*

- ☐ Sir Gaerfyrddin
- ☐ Ceredigion
- ☐ Sir Benfro
- ☐ Arall
- ☐ Dim am ddweud



Cwestiwn 17: A wyt ti'n feichiog neu wedi cael babi yn y flwyddyn ddiwethaf?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Dim am ddweud



Cwestiwn 18: Beth oedd dy oed ar dy benblwydd diwethaf?

☐ Dim am ddweud



Cwestiwn 19: A oes plant gyda ti sydd dan 18 oed yr wyt yn gofalu amdanynt? *Ticia bob ateb sy'n berthnasol i ti.*


☐ Oes, rhwng 0 a 5 oed

☐ Oes, rhwng 6 a 11 oed

☐ Oes, rhwng 12 a 17 oed

☐ Nac oes

☐ Dim am ddweud



Cwestiwn 20: Pa ryw wyt ti?

☐

Dyn

☐

Menyw

☐


Anneuaidd – dydw i ddim yn ddyn na menyw

☐

Rwy'n defnyddio gair arall

☐

Dim am ddweud



Cwestiwn 21: A ydy dy ryw wedi newid o'r un adeg dy eni?

☐

Ydy

☐

Nac ydy

☐

Dim am ddweud



Cwestiwn 22: A wyt yn ofalwr di-dâl am berthynas neu ffrind sy'n hŷn, yn anabl neu'n sâl iawn?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Dim am ddweud



Cwestiwn 23: Os wyt yn ofalwr di-dâl, dwed wrthym pwy wyt ti'n gofalu amdano. *Ticia pob ateb sy'n berthnasol i ti.*

- ☐ Prif ofalwr plentyn neu blant anabl.
- ☐ Prif ofalwr oedolyn anabl dros 18 oed.
- ☐ Prif ofalwr person hŷn dros 65 oed.
- ☐ Ail ofalwr – rhywun arall yw'r prif ofalwr, a fi sy'n helpu.
- ☐ Dim am ddweud.

Cwestiwn 24: Beth yw dy
gyfeiriadedd rhywiol? Mae
cyfeiriadedd rhywiol yn golygu gan
bwy wyt ti'n cael dy ddenu.



☐ Anrhywiol – dydw i ddim yn cael
fy nenu at neb



☐ Deurywiol - rwy'n cael fy nenu
gan ddynion a merched

☐ Dyn hoyw – rwy'n ddyn sy'n cael
ei ddenu gan ddynion eraill



☐ Menyw hoyw / lesbiaidd - rwy'n
fenyw sy'n cael ei denu gan
fenywod eraill



☐ Heterorywiol / syth - rydw i'n
cael fy nenu gan bobl sydd o'r
rhyw arall i mi

☐ Arall - dywedwch isod:



Cwestiwn 25: A wyt yn briod neu mewn partneriaeth sifil?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dim am ddweud



Cwestiwn 26: A wyt yn anabl?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dim am ddweud



Cwestiwn 27: Os wyt yn anabl, dwed wrthym am dy anabledd neu dy gyflwr iechyd. *Ticia pob ateb sy'n berthnasol i ti.*

- ☐ Mae gen i salwch ers amser hir, fel cancer
- ☐ Mae gen i salwch iechyd meddwl, fel iselder
- ☐ Mae gen i broblemau symud o gwmpas, fel gorfod defnyddio cadair
- ☐ Mae gen i broblemau siarad â phobl eraill
- ☐ Mae gen i anabledd dysgu
- ☐ Rwy'n ddall neu'n cael problemau gyda fy ngolwg
- ☐ Rwy'n fyddar neu'n cael problemau gyda fy nghlyw
- ☐ Arall
- ☐ Dim am ddweud

Cwestiwn 28: Beth yw dy grefydd?



☐ Bwdhaeth



☐ Cristnogaeth



☐ Hindŵaeth



☐ Iddewiaeth



☐ Islam



☐ Sikh

☐ Dim crefydd

☐ Arall

☐ Dim am ddweud



Cwestiwn 31: Beth yw dy gefndir ethnig?

☐ Arabaidd

Asiaidd / Prydeinig Asiaidd



☐ Bangladeshaidd

☐ Tseiniaidd

☐ Indiaidd

☐ Pacistanaidd

☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall



Du / Prydeinig Du

☐ Affricanaidd

☐ Caribiaidd

☐ Unrhyw gefndir Du arall



Mwy nag un cefndir ethnig

- ☐ Du a Gwyn
- ☐ Asiaidd a Gwyn
- ☐ Du ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir cymysg arall



Teithiwr

- ☐ Sipsi neu Roma
- ☐ Gwyddelig



Gwyn

- ☐ Cymro neu Gymraes/Gwyddel neu Wyddeles o Ogledd Iwerddon/Albanaidd/Sais neu Saesnes/Prydeinig

- ☐ Gwyddelig

- ☐ Ewropeaidd

- ☐ Unrhyw gefndir ethnig arall

- ☐ Dim am ddweud





Cwestiwn 30: Faint o arian mae dy gartref yn ei wneud y flwyddyn? Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau.

☐

Llai na £10,000

☐

£10,001 i £20,000

☐

£20,001 i £30,000

☐

£30,001 i £40,000

☐

Mwy na £40,000

☐

Dim am ddweud



Cwestiwn 31: Beth yw dy brif iaith? Yr iaith wyt ti'n ei defnyddio amlaf ac yn dy gartref.

☐ Cymraeg

☐ Saesneg

☐ Arall – dwed pa iaith isod:

☐ Dim am ddweud

Beth sy'n digwydd nesaf?



Diolch am ateb y cwestiynau hyn.




Cofia bostio dy atebion i:
Opinion Research Services
FREEPOST SS1018
PO Box 530
Abertawe
SA1 1ZL

Does dim angen i ti roi stamp ar yr amlen.



Mae angen i ti wneud hyn erbyn dydd Iau 24 Awst 2023.



Byddwn yn defnyddio'r atebion a gawn i wneud penderfyniad am y 3 opsiwn posib.


Mwy o wybodaeth



Ewch i'n gwefan:

hduhb.nhs.wales/future-children-services

Neu allu di:



- Ffonio: 0300 303 8322



- Ebostio:
hyweldda.Engagement@wales.nhs.uk

Mae'r wybodaeth Hawdd ei Ddeall wedi'i chynhyrchu gan easy-read-online.co.uk